**Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De**

**4 Hydref 2018, 10:00-12:00**

**Y Ganolfan, Senghennydd, Caerffili**

**Yn bresennol**

**Aelodau'r Tasglu**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans AC
Judith Evans, Prifathro, Coleg y Cymoedd
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
Andrew Diplock, Entrepreneur, Angel Investor and Advisor
Ann Beynon, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o Gyngor CBI Cymru.
Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Rhondda Cynon Taf
Fiona Jones, Adran Gwaith a Phensiynau

**Aelodau Bwrdd y Rhaglen**
Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio (SRO)
David Rosser, Cyfarwyddwr, Chwaraeon, ESNR

**Tîm Tasglu'r Cymoedd**
Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd (Llefarydd)
Phil Lewis, Pennaeth Cangen Tasglu'r Cymoedd (Llefarydd)
Laurie Hayward, Uwch Reolwr Rhaglen, Tasglu'r Cymoedd
Nicola Leadbeatter, Rheolwr Rhaglen, Tasglu'r Cymoedd

**Ymddiheuriadau**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC
Dr Chris Jones, Cadeirydd Interim, AaGIC
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau.**

1. Croesawodd Alun Davies (AD) Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yr aelodau i gyfarfod 11 y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De.
2. Amlinellodd bwysigrwydd newid y ffocws i gyflawni wrth i ni symud ymlaen, a gofynnodd i aelodau edrych yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni yn ardal y tasglu. Roedd cynllun cyflawni wedi'i ddiweddaru ar fin cael ei gyhoeddi tua diwedd mis Tachwedd.

**Eitem 2: Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP)**

1. Cyflwynwyd trosolwg o'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.
2. Gofynnwyd pam roedd yr enw wedi newid o "Parc Tirwedd y Cymoedd", a chadarnhawyd mai'r rheswm am hyn oedd bod y prosiect yn golygu mwy na'r dirwedd yn unig, er bod y dirwedd a'r defnydd ohoni yn amlwg yn rhan bwysig o'r

prosiect.

3. Cafwyd ysbrydoliaeth o ymweliad cynharach â Gwlad Belg lle mae ganddyn nhw dreftadaeth debyg a lle maen nhw wedi creu Parc Cenedlaethol.
4. Cadarnhawyd bod Dŵr Cymru wedi bod yn rhan o'r sgwrs ac y byddai hynny'n parhau.
5. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch presgripsiynu cymdeithasol ac a oedd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith ar Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Roedd meddygon teulu bellach yn argymell profiad gwaith yn yr awyr agored ac yn y gymuned i rai cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Cadarnhawyd bod iechyd a llesiant yn rhan bwysig o waith Parc Rhanbarthol y Cymoedd a bod yr Adran Iechyd yn Llywodraeth Cymru newydd lansio dwy raglen yn ymwneud â phresgripsiynau cymdeithasol a Chronfa Iach ac Egnïol.
6. Dywedwyd wrth y grŵp fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru Brif Weithredwr newydd, brwdfrydig sy'n cyflwyno syniadau newydd gwych.
7. Gwnaed y pwynt pwysig bod rhaid i ba bynnag waith a wneir yn y Cymoedd fod yn gynaliadwy. Rhaid i'r tasglu ystyried gwersi blaenorol a ddysgwyd.
8. Darparwyd Abertawe fel enghraifft lle'r oedd blodau gwyllt, sydd angen llai o waith cynnal a chadw, wedi'u defnyddio i dirweddu.
9. Byddai cyfraniad awdurdodau lleol yn allweddol.
10. Cadarnhawyd er na allai Parc Rhanbarthol y Cymoedd gael statws Parc Cenedlaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn deddfu i sicrhau y byddai gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd statws statudol ac y byddai'n gynaliadwy.
11. Pan awgrymwyd y dylid siarad â'r rhai a helpodd i greu Parc Cenedlaethol Eryri, cafwyd sicrwydd bod Bannau Brycheiniog wedi bod yn rhan o drafodaethau a'u bod yn fodlon â'r cynigion.
12. Trafododd y tasglu gyfleoedd posibl i ddefnyddio'r parc rhanbarthol i hyrwyddo cynlluniau ynni adnewyddadwy.

**Eitem 3: Canolfannau Strategol – y diweddaraf**

13. Cafwyd cyflwyniad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â ffrwd waith y Canolfannau Strategol.
14. Cynhaliwyd seminar ar ddeuoli'r A465 yn ddiweddar, gan amlygu'r angen i sicrhau ein bod ni'n manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch economaidd i sicrhau ein bod ni'n elwa ar y buddsoddiad hwn.
15. Cadarnhawyd bod y Canolfannau Menter yn gysylltiedig â'r Canolfannau Strategol ac y byddai'n haws sylwi ar hyn ar ôl i fwy o wybodaeth gael ei chyhoeddi am y canolfannau menter.
16. Codwyd pryder ynghylch y diffyg eiddo a oedd ar gael ar gyfer busnesau newydd, a nodwyd bod y broblem hon yn dechrau cael ei thrafod. Teimlwyd y byddai systemau trafnidiaeth integredig yn allweddol i'r llwyddiant.
17. Codwyd pryderon y gallai cyllid ar gyfer sgiliau gael ei ganolbwyntio yng Nghaerdydd trwy'r fargen Ddinesig ac ati, ond roedd hi'n bwysig denu rhaglenni sy'n cynyddu sgiliau ac entrepreneuriaeth i ardal y Cymoedd.
18. Cadarnhawyd y byddai mwy o ymgysylltu cymunedol y flwyddyn nesaf ac mae'r bwriad yn y dyfodol agos oedd y dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r gwaith o hyrwyddo Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

**Eitemau 3 a 4: Cynnydd ar gamau yn deillio o'r Cynllun Cyflawni a sut beth ddylai fersiwn nesaf y Cynllun Cyflawni fod.**

19. Darparwyd trosolwg cryno o'r dogfennau roedd aelodau wedi'u derbyn cyn y cyfarfod. O'r ymrwymiad i gael 7,000 o bobl i mewn i waith, roedd ychydig dros 1,600 ohonynt wedi cael mynediad at waith trwy raglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru ers mis Gorffennaf 2016.
20. Trafodwyd y ffaith bod rhaglenni Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau yn cael eu cyflwyno fel arfer ar gais unigolion sy'n chwilio am

brentisiaethau. Teimlwyd bod angen ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â busnesau a chynnig bwrsarïau i'w hannog i dderbyn prentisiaid gan fod busnesau llai o faint yn ei chael hi'n anodd derbyn prentisiaid â gofynion coleg ac ati.

21. Gofynnwyd i aelodau gytuno y dylid cyhoeddi cynllun cyflawni â mwy o ffocws ar ddarnau o waith yn y Cymoedd yn unig, neu ddarnau o waith sy'n cael eu gwneud yn wahanol yn y Cymoedd. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cynnwys llawer o gamau Cymru gyfan a fyddai'n cael eu cymryd yn y Cymoedd beth bynnag. Cytunwyd i hyn.
22. Dylid cydnabod ffocws ar waith Swyddi Gwell yn Nes Adref. Mae'r rhaglen hon yn cael llwyddiant mawr o ran dargyfeirio arian yn ôl i Gymru, gyda niferoedd da mewn perthynas â chyflogaeth. Mae angen nodi'r gwahaniaeth mewn diwylliant.
23. Gofynnodd aelodau am i adroddiadau ar y prif bwyntiau gael eu cynhyrchu'n barhaus fel y gall aelodau gwestiynu'r statws RAG a roddir i'r camau.
24. Cadarnhawyd ein bod ni'n anelu at ddiwedd mis Tachwedd i gyhoeddi fersiwn nesaf y cynllun cyflawni ond y byddai'n cael ei anfon at aelodau i wneud sylwadau arno cyn hynny. Yn y cyfamser, os oes gan unrhyw aelodau o'r tasglu sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer y cynllun cyflawni newydd, mae angen iddyn nhw gysylltu â thîm y tasglu erbyn dydd Gwener nesaf, 12 Hydref.

**Eitem 5: Unrhyw fater arall**

25. Mae angen sicrhau bod sefydliadau allweddol yn gweld hyn ac yn cael cyfle i drafod gyda ni. Mae sicrhau eu cyfraniad yn bwysig.
26. Byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei anfon maes o law, ynghyd â dyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf i roi digon o rybudd i aelodau.